

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

Cofnodion Cyfarfod y Fforwm Derbyn yn y Swyddfeydd Dinesig, dydd Iau 19 Mawrth 2015

Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol

Mr R Davies	Rheolwr Grŵp, Busnes, Strategaeth a Pherfformiad
Cyngh Huw David	Aelod Cabinet, Plant a Phobl Ifanc
Ms S Rodgers	Rheolwr Tîm Mynediad, Cymorth i Ddysgwyr a Phlant
Mrs M Treharne	Swyddog Cymorth Ysgol, Cymorth i Ddysgwyr a Phlant

Cynrychiolwyr Ysgolion

Mr J Tarran	Pennaeth, Ysgol Gynradd yr Archddiacon John Lewis yr Eglwys yng Nghymru
Mrs R Dixon	Pennaeth, Ysgol Y Ferch O'r Sger Corneli

Cynrychiolwyr y Llywodraethwyr

Mr W Bond	Ysgol Heronsbridge
-----------	--------------------

Ysgrifenyddes y Fforwm

Ms M Jones

Croeso

Croesawodd y Cadeirydd Mrs M Treharne i'w chyfarfod cyntaf.

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Miss S O' Halloran, Ms A Carhart, a Mrs D Burton

2 Cofnodion

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref yn gofnod cywir.

3 Cylch Gorchwyl

Eglurodd RD wrth aelodau'r Fforwm bod y cylch gorchwyl yn cael ei lywodraethu gan y 'Cod Mynediad'. Cytunodd y fforwm ar y cylch gorchwyl. Bydd MJ yn diweddarau'r aelodaeth ac yn e-bostio'r wybodaeth at aelodau'r fforwm. Nodwyd hefyd bod Mr Slogett wedi ymddeol fel llywodraethwr gynrychiolydd y fforwm.

4 Mynediad i Lenyddiaeth Derbyn/Cofnodion ac Agendâu/Adroddiad Perfformiad Blynyddol

Holodd y Cynghorydd David ynglŷn â threfnu bod mapiau (Arolwg Ordians) ar gael ar y wefan i ddangos grwpiau o eiddo yn hytrach nag eiddo unigol yn ôl ffiniau cod post i helpu rhieni i ddod o hyd i ysgol eu dalgylch. Eglurodd RD i'r fforwm y gallai tâl fod yn gysylltiedig â gwirio codau post i'r Post Brenhinol. RD i fynd ar ôl y gost gyda'r Awdurdod Lleol a rhoi'r diweddaraf am hyn yn y cyfarfod nesaf

Bydd agenda, cofnodion, adroddiadau blynyddol a chylch gorchwyl y fforwm ar gael i'r cyhoedd ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

5 Hyrwyddo a threfniadau derbyn effeithiol ar gyfer Dysgwyr sy'n Agored i Niwed

Gofynnodd RD a'r Cynghorydd David i MJ wahodd Paula Richards o'r Gwasanaeth Cynhwysiant er mwyn trafod trefniadau derbyn dewisol disgyblion sydd ag anghenion penodol / Sipsiwn a Theithwyr. RD i holi Michelle Hatcher ynglŷn â'r protocol drafft er mwyn lleoli dysgwyr sy'n agored i niwed a ph'un a yw'r ddogfen wedi ei chadarnhau erbyn hyn.

6. Adolygiad o lyfryn 'Dechrau'r Ysgol' 2015-16

Hysbysodd RD y fforwm nad oedd unrhyw ymateb wedi bod i'r ymgynghoriad.

7 Ymateb i'r ymgynghoriad ar Bolisi Derbyn Drafft 2016/17 yr Awdurdod Lleol

Ystyriodd y fforwm y polisi drafft a'r unig addasiad i'r polisi yw diwrnod 'Cynnig Cenedlaethol Cymru Gyfan' ar gyfer lleoedd mewn ysgolion uwchradd. Rhaid i rieni gael gwybod am ganlyniad eu cais am le ar y diwrnod gwaith cyntaf ym mis Mawrth. Ar gyfer 2016-17 bydd rhieni'n cael gwybod am ganlyniad eu cais ar ddydd Mawrth 1 Mawrth 2016. Bydd polisi drafft 2016-17 yn cael ei anfon at y Llywodraethwyr er mwyn ymgynghori arnynt yn Nhymor y Gwanwyn ac edrychir arno eto ym mis Mawrth 2015 er mwyn ystyried unrhyw gynigion.

Mae'r diwygiadau arfaethedig i'r polisi meithrin a'r polisi trafndiaeth yn dal yn destun ymgynghoriad. Bydd RD yn rhoi'r diweddaraf am hyn yng nghyfarfod nesaf y fforwm.

8 Cadarnhau barn y Fforwm ar Bolisi Derbyn 2016/17 yr Awdurdod Lleol

Nododd y fforwm y diwygiad i amserlen dderbyn ysgolion uwchradd. Bydd yr amserlen ddiwygiedig ar gyfer 2016/17 yn cael ei hanfon i bob ysgol. Holodd y Cynghorydd David ynglŷn â'r posibilrwydd o gynnwys gwybodaeth yn llyfryn Dechrau'r Ysgol 2016-17 am yr hysbysiad cosb benodedig, gan gyfeirio at Dudalen 22 a gosod targedau presenoldeb o 95% (cyfeirio at y strategaeth bresenoldeb). Eglurodd RD nad oes modd diwygio'r polisi gan ei fod wedi ei benderfynu ar gyfer 2016-17 erbyn hyn, ond gellid ystyried y wybodaeth ar gyfer llyfryn dechrau'r ysgol 2017-18.

9 Diweddariad ar y 'Grŵp Gorchwyl Ysgolion'

Roedd RD a SR wrthi'n cynnal gwaith cysylltiedig â phroffilio Penaethiaid presennol mewn ysgolion. Awgrymwyd hefyd y dylid cynnwys Dirprwy Brifathrawon yn y proffilio.

10 Diweddariad ar yr ymgynghoriad ar y 'Polisi Teithio Dysgwyr'

Hysbysodd RD aelodau'r fforwm fod trefniadau'n mynd i gael eu gwneud dros yr ychydig wythnosau nesaf i ymgysylltu eto â disgyblion er mwyn clywed mwy o safbwyntiau am y cynigion. Bydd cynrychiolwyr yn bresennol o gyngor yr ysgol er mwyn adrodd yn ôl. Bydd digwyddiadau'n cael eu cynnal mewn Ysgolion Cyfun a Chynradd.

11. Derbyn diweddariad ar y 'Gronfa Ddata Derbyniadau' bresennol

Nododd RD fod gwaith ar y gronfa ddata fewnol ar gyfer derbyniadau yn dal i fynd rhagddo ac anelir at brofi yn gynnar yn yr haf. Mae'r system yn cael ei hystyried er mwyn cefnogi ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr.

12 Trefnu dyddiadau cyfarfodydd y 'Fforwm Derbyniadau' yn y dyfodol.

Bydd dyddiadau nesaf y fforwm derbyn yn cael eu trafod yng nghyfarfod nesaf y fforwm

13 Unrhyw faterion eraill

Diolchodd y Fforwm i Shan am ei hymroddiad a'i gwaith caled a dymuno'r gorau iddi ar gyfer y dyfodol